Sicrwydd bendigaid! Iesu yn rhan

Caneuon Ffydd: Rhif 396

Sicrwydd bendigaid! Iesu yn rhan,
hyn ydyw ernes nef yn y man;
aer iachawdwriaeth, pryniant a wnaed,
ganed o'r Ysbryd, golchwyd â'i waed.

Dyma fy stori, dyma fy nghân,
canmol fy Ngheidwad hawddgar a glân;
dyma fy stori, dyma fy nghân,
canmol fy Ngheidwad hawddgar a glân.

Ildio'n ddiamod, perffaith fwynhad,
profi llawenydd nefol ryddhad;
engyl yn disgyn, dygant i'm clyw
adlais trugaredd, cariad fy Nuw.

Ildio'n ddiamod, dyma fy hedd,
allwedd fy nghysur, Iesu a'i medd;
aros a disgwyl, disgwyl bob dydd,
llonni yng nghariad Arglwydd y ffydd.

FRANCES J. VAN ALSTYNE, 1820–1915
cyf. GWILYM R. TILSLEY, 1911–97

MYFYRDOD

'Does yna ddim sicrwydd i'w gael y dyddiau yma' yw'r gri o'r gweithle, gyda phobl yn methu â chynllunio fawr ddim yn yr hir dymor. Mae popeth mor gyfnewidiol yn ein cymdeithas bellach, a'r unig beth sydd yn aros yr un fath, meddai un sylwedydd craff, ydy newid ei hun.

Byddai rhai yn dweud hefyd na ellir bod yn rhy sicr ynglŷn â'n hiachawdwriaeth chwaith, ac mai ymhonnus yw hawlio bod gennym unrhyw sicrwydd ysbrydol. Gallwch ddweud: 'rydw i yn y broses o gael fy achub', neu 'rydw i'n trio cael fy achub', neu 'rydw i'n gobeithio cael fy achub', ond nid 'rydw i wedi cael fy achub'!

Mae'r cwestiwn, a oes sicrwydd iachawdwriaeth i'w gael tra'n bod ni'n dal yma ar y ddaear, yn gwestiwn sydd yn llawer iawn dyfnach na dadl academaidd neu ddiwinyddol yn unig, ac yn cyffwrdd â gwraidd ein profiad ysbrydol. Yn wir, mae'r cwestiwn yn un mor ddwfn nes ei fod yn penderfynu a allwn ni edrych arnom ein hunain fel Cristnogion yn ystyr y Testament Newydd o gwbl.

Ond fe ddywed Iesu Grist ei hun mai dyma un o'r ychydig bethau y gallwn ni fod yn sicr ohonyn nhw yr ochr yma i'r nefoedd: 'Pwy bynnag sy'n credu yn y Mab, y mae bywyd tragwyddol ganddo' (Ioan 3:36). Pe na byddai Iesu wedi dweud dim arall ar y mater, yna byddai hynny yn ddigon ar ein cyfer. Mae'r 'y mae . . . ganddo' yn amlwg ddigon yn y presennol, ac ar gael nawr.

Fel hyn y dywedodd y diwygiwr a'r efengylydd Americanaidd D. L. Moody, pan soniodd rhywun wrtho mai peth ymhonnus oedd dweud ei fod yn gadwedig: 'Rydw i'n meddwl ei bod hi'n fwy ymhonnus o lawer i unrhyw un sydd yn honni credu yng Nghrist beidio â dweud eu bod nhw'n gadwedig pan mae'r Meistr ei hun yn datgan, '"Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthych, y mae gan y sawl sy'n credu fywyd tragwyddol."' A dyna ni eto yn ôl gyda geiriau Iesu ar y mater, ond yn Ioan 6:47 y tro hwn.

Ond ar wahân i dystiolaeth allanol y Gair, mae gennym ni dystiolaeth fewnol hefyd sydd yn dod oddi wrth yr Ysbryd Glân sy'n preswylio yn ein calonnau. Mae hwn yn ein hargyhoeddi, y tu hwnt i amheuaeth, ein bod yn blant i Dduw ac yn ein galluogi i alw Duw yn Dad inni. Dyma'r 'sicrwydd bendigaid' y sonia Tilsli amdano yn ei gyfieithiad o'r emyn poblogaidd hwn. Y sicrwydd sydd yn dod o 'ildio'n ddiamod' i Grist, oherwydd ei waith ef a blediwn ni drosom, nid unrhyw ymgais yw ohonom ein hunain i fod yn gadwedig; mae'r cyfan yn rhodd: 'ganed o'r Ysbryd, golchwyd â'i waed'.

GWEDDI

Diolch byth, Dad nefol, nad oes raid imi chwilio rhagor am y bywyd. Mae'r cyfan gennyf yn Iesu Grist. Diolch iti am y sicrwydd mae dy Air a'r Ysbryd Glân ei hun yn ei roi imi fy mod i'n blentyn i ti. Gad i'r sicrwydd bendigaid hwn gryfhau ynof bob dydd. Yn enw Iesu. Amen.